

Llais y Llan Hydref 2017

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Tachwedd 2017

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau, 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Gwener, 11.30 – 12.30, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830

Hydref 13 Nos Wener Noson Rasys Neuadd Bronwydd

Hydref 14 Nos Sadwrn Cynhelir noson deyrnged i Elvis Presley Neuadd Goffa

Hydref 17 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Hydref 20 Cylch Meithryn Bronwydd Daith Beic Noddedig

Hydref 20 Nos Wener 7.30 Sioe Ffasiwn Neuadd Goffa

Hydref 22 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Hydref 25 Nos Fercher 7.30 Hyfforddiant I Diffibriliwyr Neuadd Goffa

Hydref 29 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Tachwedd 4 Nos Sadwrn Cór Llanpumsaint a'r Cylch Cyngerdd Blynnyddol Capel Tabernacle

Tachwedd 4 Nos Sadwrn 6.30 Arddangosfa Tân Gwylt. Clwb Criced Bronwydd

Tachwedd 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Tachwedd 8 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Tachwedd 15 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Tachwedd 21 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Tachwedd 24 Nos Wener Cór Llanpumsaint a'r Cylch Neuadd Talog

Tachwedd 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Tachwedd 26 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Rhagfyr 2 Dydd Sadwrn 11.- 2 Ffair Nadolig Neuadd Goffa

Rhagfyr 13 Dydd Mercher 6.00 Nadolig Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Rhagfyr 24 Dydd Sul Gorymdaith Siôn Corn Noswyl Nadolig

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Bydd y Cór yn cynnal ei Cyngerdd Blynnyddol yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin ar nos Sadwrn Tachwedd 4 ydd 2017 am 7.30 y.h. Eleni yn wahanol i arfer bydd y Cór, oherwydd galwadau eraill yn perfformio eitemau amrywiol. Dyma fanylion y cyngerdd:-

Cór Llanpumsaint a'r Cylch. Arweinydd Gwyn Nicholas. Organydd Lynne James.

Yn cynorthwyo bydd Jessica Robinson, Carys Bowen, Huw Ynyr a Daniel O'Callaghan.

Pris tocyn yw £10 ac y maent ar gael wrth unrhyw aelod o'r Cór. Mawr obeithiwn am eich cefnogaeth. Hefyd ar Dachwedd 24 2017 bydd y Cór yn cynnal cyngerdd yn Neuadd Talog gyda'r elw yn mynd tuag at y Neuadd. Hefyd rhywbryd ym mis Rhagfyr bydd y Cór yn cynnal "Dewch i ganu carolau" Fe fydd posteri o amgylch y pentref yn y dyfodol agos yn cadarnhau y dyddiad a'r safle. Bydd elw y noson hon yn mynd tuag at Elusen Ddewisiedig y Cór am eleni sef M.S.

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol o'r uchod yn y Neuadd Goffa ar Awst 31 2017 pan etholwyd y swyddogion canlynnol:-

Cadeirydd: Alan Dentry.

Ysgrifennydd: Jill Edwards

Trysorydd: Gethin Edwards

Archwiliwr: Alan Dentry

Capten y Tím: Gethin Edwards.

Is-gapten: Rhys Williams

Gofal y bwyd: Jill Edwards.

Swyddogion Amddiffyn Plant: Alan Dentry a Derick Lock.

Croesawyd un aelod ifanc sef Robert day.

Diolchodd y Cadeirydd i Derick Lock am ei waith diflino dros y Clwb am 13 blynedd.

Mae tymor 2017 / 18 wedi dechrau ond gwaetha'r modd collwyd y géim gyntaf yn erbyn Trimsaran and bydd y tair géim nesaf adref a gobeithir am well canlyniadau.

Mae croeso bob amser i aelodau newydd o 11 hyd 99 blwydd oed.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a'r Cadeirydd Alan Dentry ar 01267 253549 neu Jill Edwards Ysgrifennydd ar 01267 253474.

Nid oes eisiau profiad, mae hyfforddwyr profiadol wrth law i'ch helpu.

Canlyniadau'r Clwb 100 am fis oedd Awst a Medi.

Awst

Rhif 77 £20 Idris a Marged Davies

Rhif 9 £10 Keith Tozer

Rhid 38 £5 Morwen Rees

Rhif 4 £5 Alan Dentry

Medi

Rhif 51 £20 Grant Davies

Rhif 67 £10 Roz Evans

Rhif 5 £5 Marjorie Dentry

Rhif 83 £5 Olwen Jones

Derick Lock, Trysorydd. 253524

Clwb Llés ac Adloniant Llanpumsaint

Cynhaliodd y Gymdeithas ei Bore Coffi Blynnyddol gyda'r elw yn mynd tuag at waith Macmillan ar fore Sadwrn Medi 23 2017. Nid oedd y tywydd yn garedig ond cafwyd ymateb teilwng iawn a chodwyd y swm anrhydeddus o £332.06. Diolch i bawb a roddodd gacennau ac i bob un arall a gyfranodd mewn unrhyw ffordd.

Gobeithio i Bob Jameson fynd a Ben gyda fe i'r gwely y noson honno – yr arth wrth gwrs!!

Cynhalwyd ein Pryd Bwyd Elusennol ar Fedi 26 2017 yn Nhafarn y Rheilffordd gyda 31 yn bresennol. Llawer o ddiolch eto i Jayne, Nick a'r staff am y bwyd bendigedig. Gobeithio nad oeddwn yn rhy stwrllyd. Codywd £244.00 ar y noson a fydd yn mynd i'n helusen ddewisiedig sef Eiriol. Elusen leol yng Nghaerfyrddin sydd yn helpu y rheini sydd yn dioddef o Iechyd Meddwl.

Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint.

Dyddiad i'ch dyddiadur. Fe gydd Ffair Nadolig yr uchod yn cael ei chynnal ar fore Sadwrn Rhagfyr 2 2017 rhwng 11 a 2 o'r gloch. Fe fydd yna lawer o stondinau ac hefyd lluniaeth. Gobeithio y gnewch ein cefnogi.

Gwestai Arbennig. Eleni fe fydd Sion Corn yn bresennol yn y ffair a bydd yna gyfle i'r plant i gael eu lluniau gyda fe. Os oes diddordeb gyda chi cysylltwch a Emma Brown 07773 0344461 neu

brown6bz@btinternet.com

Codi Arian Hawdd

Os ydych chi yn siopa ar y we falle y gallwch chi helpu y gymdeithas. Y cyfan sydd rhaid gwneud i'w cofrestri ar www.easyfundraising.org.co.uk/causes/LlanpumsaintPTA neu cysylltu a Emma Brown am y linc.

£4£

Os oes unrhyw un yn y gymuned yn gallu hawlio yr uchod drwy ei gwaith neu unrhyw ffordd arall ac yn fodlon i'r PRHaA i hawlio yr arian a fyddech cystal a chysylltu a Becky James ar 01267 253560

A ydych wedi cael eich copi?

Mae rhai copiau a lyfr Arwyn sef "Hanes Llanpumsaint" a llyfr Arwyn a Margaret ar "Ysgol Gynradd Llanpumsaint -150 oed" ar gael o hyd am £10 yr un. Dymuniad Arwyn yw rhoi yr arian am y gwerthiant hyn i fynd tuag at Ymchwil Cancr.

Dyma gyfle da i chi i brynu y llyfrau hyn. Mae pob llyfr yn llawn a luniau a ffeithiau am Lanpumsaint ac hefyd am yr ysgol. Fe fyddent yn anrhedig Nadolig pwrpasol iawn i aelodau o'r pentre neu eich perthnasau. Cofiwch bod Nadolig ar y gorwel.

Cysyllter a Carolyn Smethurst ar 01267 253308 neu info@gwilimill.com

Canolfan Ailgylchu Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Mae ymddiriedolwyr o'r uchod mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Gár ynglyn a'r biniau ar gyfer papur, gwydr a chaniau sydd wrth ochr y Neuadd(yn y maes parcio) O dan reolau y cytundeb yr wyf i fel Ysgrifennydd y Neuadd yn gyfrifol am ddanfon adroddiadau pob pythefnos ar y canlynnol:-
Cyflwr y biniau

Unrhyw sbwriel o amgylch y safle

Unrhyw fändaliaeth

Unrhyw beth anghyfreithlon ar y safle.

Byddai o gymorth mawr i mi petasai unrhyw un sydd yn cael unrhyw broblem ar y safle yn cysylltu ar unwaith er mwyn cysylltu a'r Cyngor Sir i ddatrys y broblem yn gyflym.

Derick Lock Ysgrifennydd y Neuadd ar 01267 253524

Eglwys y Plwyf, Llanpumsaint.

Newyddion oddiwrth Parch Gaynor Jones-Higgs.

Braint ac anrhydedd i mi i'w cael fy mhenodi fel Curad gyda Chyfrifoldeb yn y plwyf a chael fy nghroesawu mewn Gwasanaeth Arbennig ym mis Medi.

Edrychwn ymalen i symud i mewn i'r Ficerdy Newydd yn Llanpumsaint yn y dyfodol agos.

Yr wyf yn enedigol o Gaint ond des i i Gymru yn 1990 i astudio am radd yng Ngholeg Llanbedr Pont Steffan ac yr wyf yma o hyd. Cafodd fy nwy ferch ei geni yng Nghymnru ac maent yn rhugl yn y Gymraeg a rydw i yn gweithio ar wella yr iaith.

Cyn dod yn Curad gwasanaethas i fel Curad Cynorthwyol ym mhlwyf San Pedr, Caerfyrddin, Abergwili a Chapel y Groes.Cyn cael hyfforddiant i fynd i'r Weinidogaeth athrawes o'n i a wedyn gweithio yn y Sector Gwirfoddol.

Fel arfer mae manylion ein gwasanaethau ar yr hysbysfwrdd tu allan i'r Eglwys ac edrychaf ymlaen i gyfarfod a phobl yn y gwasanaethau ac yn enwedig yn y Gwasanaeth Diolchgarwch a'r Swper i ddilyn ar Hydref 6 2017.

Mwy na thebyg yr ydych wedi fy ngweld gyda Caleb, y ci yn cerdded o amgylch y pentref felly a fydddech crystal a'm stopio a chyflwyno eich hunain.

Os nad ydych wedi bod yn yr Eglyws ers peth amser neu fale dim o gwbl dyma eich cyfle i ddod i weld sut mae Duw yn ein harwain mewn ffyrdd cyffrous. Croeso cynnes iawn i chi.

Hefyd mae tudalen gyda ni ar Wefan y Pentref gyda newyddion o bob digwyddiad yn y dyfodol.

www.llanpumsaint.org.uk

Diolch yn fawr.

Hoffai Marice a Barry Tý Nant ddiolch o galon i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd eu Parti Mawr ar gyfer Marie Curie yn ddiweddar. Codwyd y swm anrhydeddus o £400.00.

Diolch o galon i bawb.

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru.

Dyddiadau i'ch Dyddiaduron

Hydref 22 0217 Evie Crystal

Tachwedd 26 2017 Ros Briagh

Mis Rhagfyr 2017 Dim cyfarfod

Ionawr 28 2018 I'w drefnu

Chwefror 25 2017 Jay Laville

Mawrth 25 2018 Cyfrfod Blynyddol

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnniau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gdarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45y.p. ac am £4 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch a Sandy ar 01267 253547

Clwb Cerdded Llanpumsaint.

Dyma fanylion am ein teithiau nesaf. A fydddech crystal a rhoi gwybod os byddwch yn ymuno a ni.

Sadwrn. Tachwedd 4 2017 am 11.00y.b. fe fyddwn yn cerdded o amgylch Drefach-Felindre. Fe fydd lle i barcio yn yr Amgueddfa Wlán ac fyddwn yn dod yn ól yno i gael lluniaeth a hefyd i gael ein tywys o amgylch yr Amgueddfa sydd yn werth ei gweld.

Sadwrn Rhagfyr 9 2017 am 11.00y.b. fe fyddwn yn cerdded o amgylch y pentref. Cerdded tuag at Nantgwyn a gorffen yn Nhafarn y Rheilffordd am ginio. Yn dilyn fe fydd ein Cyfarfod Blynyddol. Rhowch wybod os ydych yn ymuno a ni er mwyn archebu cinio.

Croeso i bawb. Carolyn Smethurst 01267 253308

Diffibriliwyr yn eich hardal

Tybed a ydych yn gwybod ble mae yr uchod yn eich hardal? Mae yn bwysig eich bod yn gwybod rhagofn mae arnoch chi y bydd ei angen gyntaf.

Mae Curiad Calon Llanpumsaint wedi gosod 4 yn y lleoliadau hyn:-

Tu fás ar y wal i'r Neuadd Goffa yn y pentref SA33 6HN

Ar y wal ger y maes parcio yn Nhafarn y Rheilffordd SA33 6BU

Ar y wal ar Fferm Henfryn SA33 6LD

Ar Festri Nebo SA33 6HN

Does dim eisiau allwedd na chód i'w hagor trowch y ddolen a bydd y cabinet yn agor.

Fe fydd hyfforddiant yn cael ei gynnwl ar sut i ddefnyddio y cyfarpar hyn yny Neuadd Goffa ar nos

Fercher Hydref 25 2017 am 7.30y.h. Mawr obeithio y cymerwch y siawns hyn y ddysgu sut i ddefnyddio yr offer yma sydd yn gallu achub bywyd. Does dim tál.

Hefyd mae pecynnau ymarfer ar gael i'w defnyddio yn eich cartref ac y maent ar gael drwy gysylltu a Carolyn Smethurst ar 01267 253308

Sut lwyddiant gawsoch chi yn eich gardd eleni?

Mae'r haf wedi bod yn ddiflas a llwydaidd. Araf iawn oedd y blodau i flodeuo a rhai ddim wedi blodeuo o gwbl. Ond mae'n amlwg bod y llysiau yn hoff iawn o'r tywydd hyn achos fe gawson ni gnydau da iawn. Ers i ni symud yma yr ydym wedi ceisio llawer o wahanol llysiau i gael ein ffefrynn a dyma'r canlyniadau.

Pys Rydym bob amser wedi tyfu "Kelvendon wonder" ond y llynedd fe brynon ni "Hurst Green Shaft" a chafwyd llawer gwell canlyniad. Elenio fe blannon ni yr un rhai a chafwyd canlynaid gwych gyda' llysiau yn para tan fis Medi. Maent yn flasus iawn wedi eu coginio a hefyd i'w bwyta tra yn casglu.

Ffa. Y rhai gorau i ni yw "Masterpiece". Mae'r canlyniadau yn dda bob blwyddyn ac yn para am asmer hir.

Ffa Rhedeg. Y ffefrynn i yw "White Lady" ac yn siwtio ein pridd yn dda iawn. Mae'r canlyniadau bob maser yn dda iawn ac yn para gyda bach o lwc tan ddiweddu mis Medi. Digon i ni a'n cymdogion. Os na ddaw rhew fe fydd y ffa rhedeg yma yn para tan hanner mis Hydref.

Tatws. Oherwydd bod ein pridd yn drwm a gwlyb aac yn denu malwod mae yn ofynnol i ni fod yn ofalus wrth ddeuwis tatws hád. Eleni penderfynwyd (gyda help y wé) brynu Rocket a Kestrel oherwydd nad oedd malwod yn eu hoffi. Y canlyniad oedd bod hanner y tatws Rocket wedi cael eu bwyta gan y malwod ond roedd canlyniad y Kestrel dipyn gwell. Felly blwyddyn nesaf Kestrel amdani.

Er bod yr haf wedi bod yn ddiflas ame'r pili palas wedi bod yn olygfa werth ei gweld ym mis Medi.

Carolyn Smethurst

Y Bws Leol – Rhaid ei defnyddio neu ei cholli

A ydych chi wedi defnyddio'r bws leol i Gaerfyrddin? Arianir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Gár ac y mae yn ffordd hawdd i fynd i Gaerfyrddin dair gwaith y dydd.

Mae'r bws gyntaf yn gadael Bryn y Wawr am 10.10. mynd heibio'r Eglwys a'r Orsaf Fwsiau yng Nghaerfyrddin. Wedyn fe aiff ymlaen i Morrisons ac yn cyrraedd yno am 10.43. Mae hyn yn rhoi digon a amser ichi wneud eich siopa a bwyta cinio cyn dod yn ól.

Os nad ydych eisiau mynd i Morrisons gallwch adael y bws yn yr Orsaf Fwsiau a cael rhyw ddwy awr i siopa yn y dre. Bydd hyn yn osgoi edrych am le i barcio a hefyd dim talu.

Mae'r bws yn gadael Morrisons am 13.10, gadael yr Orsaf Fwsiau am 13.15 a chyrraedd

Llanpumsaint am 13.40. Os am ragor o wybodaeth ffoniwch 01267 234567 neu ar y wefan sef <http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/2130506/215.pdf>

Diweddarriad Bandlydan BT Fibre Optic.

Yn y argraffiad diwethaf o Lais Y Pentref fy mrawddeg olaf oedd “ Fe gaf ddiweddarriad mewn 2 ddiwrnod sef Dydd Iau Awst 3ydd. Wedi llawer siom gallaf yn awr roi y diweddarriad da ar ól yr holl “fiasco”

I wneud pethau yn waeth wrth edrych ar System Archebu BT y diweddarriad oedd bod fy Mandlydan wedi cael ei gosod ar Awst 1af!! Ar ol tair awr ar y ffón a chael gafael yn rhywun oedd yn gallu siarad synnwyr fe wnes i ddweud fy nghwyn wrth “BT Executive Technical Complaints Team” Er yr oedd yn ofynnol i gysylltu eto lawer gwaith a theimlo fy mod yn colli’r dydd fe ges y newyddion bod fy nghwyn wedi cael ei danfon at y “Work allocation Team” a bydden nhw yn penodi un person i ddatrys fy mhroblem. O fewn oriau ces i e-bost gyda enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffión Nicky a oedd yn mynd i ddatrys fy nghwyn.

Roedd rhaid canmol Nicky am y ffordd broffesiynol o weithio ac yn cysylltu pob amser yn ól ei haddewid. O’r diwedd ar ól llawer o ymweliadau gan Open Reach ac ym mhen 3 wythnos roedd y system yn barod i gael ei phrofi.

Ar Awst 24ain gosodwyd BT Infinity 1 ac yr oedd yn gweithio. HWRE!!! ac yn disgwyli cael 52 Mbps ar ól 10 diwrnod. Ar y diwrnod y gosodwyd yr uchod rhoddwyd credyd i fy nghyfrif fel iawndál ac hefyd fe ges i Infinity 2 am flwyddyn am yr un pris ac Infinity 1. Nawr mae 72Mbps gyda fi ac yr wyl yn ei siecio bob dydd a nid yw o dan 72Mbps unrhyw ddiwrnod. Mae gweithio yn awr ar y cyfrifiadur yn bleser pur.

Hefyd gwnaeth Nicky yn siwr bod arbenigwyr cywir yn fy helpu i ddatrys y broblem gyda BT Smart talk. Llawer o ddiolch iddi hi am ei chymorth amhrisiadwy i ddatrys y broblem yma.

O ddiddordeb roeddwn i yn cael 50+Mbps trwy Wi-Fi ond nawr rydw i’n derbyn 72Mbps trwy cebl. Pan oeddwn i yn gweithio ym myd cyfrifiaduron, doedd dim gwahaniaeth beth oedd y broblem ond y canlyniad oedd yn bwysig i’r cwsmer bob amser.

Ar ól clywed am y problemau mae rhai pobl yn eu cael yn y pentref gyda BB cysylltiais a Nicky ar ddydd Sadwrn Med 23ain. Eglurais bod rhai cartrefu lle roedd BB wedi ei osod yn cael problemau tebyg i’r rhai a dderbyniais i. Hefyd roedd rhai cwsmeriaid ffyddlon i BT yn derbyn prisiau uwch am osod cyfarpar nad oedd cwsmeriaid newydd yn eu derbyn. Mae Blwch Gwyrrd tu fás i un tymhell mae’r teulu yn methu gael y gwasanaeth wedi ei osod. Oherwydd amgylchiadau mae yn bwysig iawn i’r teulu yma dderbyn y gwasanaeth. Mae Nicky wedi addo edrych i mewn i’r broblem. Mae yn rhaid pwysleisio os ydy’r broblem ddim yn fawr wedi ichi dderbyn y gwasanaeth hyn nid cyfrifoldeb Nicky yw e. Problem fawr fel gefais i – IE.

Ei henw yw Nicky Shand, Ffón 01313123555 neu e-bost nicola.shand@bt.com

Cynghorir chi yn gyntaf i gysylltu drwy e-bost ond heb hynny wrth gwrs defnyddiwch y ffón. Dave Robinson.

Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint.

Peidiwch mynd yn hen, tyfwch eich ffrwythau a’ch llysiau ac wrth hyn yn cadw’n heini. Mae llysiau yr ydych wedi tyfu eich hunan dipyn gwell na beth gewch yn yr archfarchnad oedd.

Mae’r gymdiethas yn awr yn chwilio am aelodau newydd o bob oed. Mae gyda ni weliau wedi eu codi, twnelu a phob cyfarpar arall at ddefnydd yr aelodau.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Keith (253375) neu Ray (253157)

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Ein thema y tymor hwn yw “Anifeiliaid”. Hyd yn hyn, rydym wedi bod yn dysgu am drychfilod. Byddwn yn parhau gyda'r thema drwy'r tymor. Mae'r plant yn cael cyfle i fynd allan ar Ddydd Mercher ac maent wedi bod yn chwilio am wahanol drychfilod o gwmpas y Neuadd. Byddwn yn codi arian i'r Cylch ar yr 20fed o Hydref trwy gynnal reid feic noddedig. Byddwn yn mynd a'r beiciau a'r tractorau tu allan er mwyn i'r plant medru beicio o gwmpas y maes parcio. Mae'r Cylch hefyd wedi trefnu **Sioe Ffasiwn gan Siop “Lan Lofft”** (Llambbed) i'w chynnal yn Neuadd Llanpumsaint ar yr 20fed o Hydref (Nos Wener) am 7.30 yh. Mae tocynnau ar werth gan Ceri (07814035511). Pris y tocyn yw £10.00 ac mi fydd y pris yn cynnwys gwydriad o Brosecco neu diod foddal a lluniaeth ysgafn.

Mae'r Meithrin ar agor i blant 2 oed i 4 oed ar fore Mawrth, Mercher, Iau a Gwener o 9.15yb tan 12.00 hd. Mae Ti a Fi yn cael ei gynnal bob Dydd Gwener 10 yb tan 12.00 hd ar gyfer plant 0 -4 gyda rhiant/gofalwr. Mae Cylch Ti a Fi yn gyfle da i blant bach i ddechrau cymdeithasu ac i gael profiadau newydd. Edrychwn ymlaen i'ch cwrdd.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisowedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2017

Hydref 29 2017 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Huw George

Tachwedd 5 2017 Cwrdd Diolchgarwch am 2.00 y.p. Parch Mary Thorley

Tachwedd 26 2017 Gwasanaeth Undebol ym Mhenybont am 10.30 y.b. Parch Gareth Morris

Rhagfyr 17 2017 Gwasanaeth Carolau o dan ofal yr Aelodau

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Caersalem, Llanpumsaint

A minnau, os dyrchesfir fi oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb ataff y hun. Ioan 12:32

Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r oedfa yn Saesneg

Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul
Croeso i bawb

Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

Y Gwasanaeth Tân yn Annog Trigolion i fynd i Arddangosfeydd Tân Gwyllt Wedi'u Trefnu ar gyfer Noson Tân Gwyllt 2017

Yn y cyfnod sy'n arwain at Noson Tân Gwyllt, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn annog y cyhoedd i gael hwyl, ond i gadw'n ddiogel.

Gan fod 5 Tachwedd ar gyrraedd, mae'r Gwasanaeth yn annog y cyhoedd i ddathlu noson Tân Gwyllt eleni yn y ffordd mwyaf diogel posibl, ac i fynd i arddangosfa Tân gwylt swyddogol sydd wedi'i threfnu ar gyfer y cyhoedd. Maent yn llawer mwy diogel, yn fwy difyr ac yn fwy costeffeithiol nag arddangosfeydd preifat.

Mae'r Gwasanaeth yn cynghori'r cyhoedd i beidio ag adeiladu coelcerthi preifat, ond os ydych yn bwriadu gwneud hynny, mynnwn eich bod yn cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ymlaen llaw ar 01268909404 ac yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i ni:

- Enw'r unigolyn cyfrifol a'r rhif ffôn cyswllt
- Dyddiad, amser a lleoliad y goelcerth
- Sut y byddwch yn diffodd y Tân ar ôl y digwyddiad, neu os bydd yn mynd allan o reolaeth

Dywed Steve Richard, Rheolwr Atal Tanau Bwriadol y Gwasanaeth,

"Cofiwch fod diogelwch yn allweddol er mwyn sicrhau Noson Tân Gwyllt ddiogel a llwyddiannus.

Rydym yn annog pawb sydd am ddathlu Noson Tân Gwyllt i geisio mynd i'ch arddangosfa Tân gwylt a choelcerth leol. Dyma'r ffordd fwyaf diogel o fwynhau'r noson.

Fodd bynnag, os ydych am brynu Tân gwylt, gofalwch eich bod yn eu prynu gan fanwerthwr dibynadwy, a bod y nod BS 7114 arnynt.

Cadwch eich anifeiliaid anwes dan do yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel rhag risg neu fraw.

Byddwch yn ystyriol o'ch cymdogion trwy eu rhybuddio ymlaen llaw, a pheidiwch â chynnau Tân gwylt ar ôl 10pm. Cofiwch nad yw pawb yn dymuno bod yn rhan o'r dathliadau.

Os ydych yn gwybod am unrhyw un a all fod yn gwerthu Tân gwylt anghyfreithlon, cysylltwch â'r Heddlu trwy ffonio 101. Diolch."

Trwy ddilyn yr awgrymiadau syml canlynol, gallwch sicrhau'r noson fwyaf diogel posibl:

Gofalwch eich bod yn gwneud y canlynol:

- Gosod y goelcerth yn ddigon pell i ffwrdd oddi wrth dai, garejys, siediau, ffensys, ceblau uwchben, coed a pherthi. Mae mwy na 15 metr fel arfer yn bellter diogel.
- Sicrhau bod y goelcerth yn sefydlog ac na fydd yn cwympo.
- Sicrhau bod pawb yn sefyll yn ddigon pell i ffwrdd (15 metr) o'r Tân a bod plant yn cael eu goruchwyliau bob amser.
- Cadw bwcedi o ddŵr, pibell ddŵr neu gyfarpar diffodd Tân gerllaw rhag ofn y bydd argyfwng.
- Arllwys dŵr ar weddillion y goelcerth cyn gadael.
- Cadw anifeiliaid anwes dan do yn ystod y noson.

PEIDIWCH â gwneud y canlynol:

Llosgi: , •Teiars, Silindrau, Tuniau, Erosolau, Paent, Plastigion, Rwyber

- Dodrefn wedi'u llenwi â sbwng
- Peidiwch byth â defnyddio hylifau fflamadwy i gynnau coelcerth.
- Peidiwch byth â chynnau na storio Tân gwylt wrth ymwl coelcerth.
- Peidiwch byth a gadael coelcerth i losgi heb fod neb yn cadw golwg arno.

Tenovus Closer to Home Campaign

“...roedd derbyn fy nhrinaeth cancer yn gyflym a heb angen teithio cyn belled yn fendith.” Claf canser a driniwyd ar Uned Deithiol Tenovus Gofal Canser

Dealla Tenovus Gofal Canser sialensiau unigryw problemau gwledigrwydd a mynediad wynebir gan gleifion canser. Wyth mlynedd yn ôl datblygasant wasanaeth arloesol i’w goresgyn a gwneud triniaeth canser yn decach: yr Uned triniaeth canser Symudol cyntaf yng Nghymru ac un o’r rhai cyntaf yn y DU. Heddiw mae ganddynt ddwy Uned o’r fath.

Tyf y galw am y gwasanaeth yn fisol ac mae'r elusen newydd ddechrau adeiladu'r drydedd Uned. Gwna ei hwyth sedd triniaeth ychwanegol hi'n bosibl i'r elusen ddwyn triniaeth at y claf, yn hytrach na gofyn i'r claf deithio pellter maith am driniaeth. Efallai mai'ch partner, brawd, merch, cyfaill neu gymydog fydd y claf canser.

Ymwela'r Unedau'n ddyddiol a gwahanol gymunedau, gan gynnwys Llanbed, Caerfyrddin ac Aberystwyth. Fe'u lleolir mewn meysydd parcio lleol, archfarchnadoedd a lleoliadau cymunedol lle gall cleifion barcio wrth y drws am ddim. Helpant ganolfannau canser gor-brysur gyflawni eu targedau amser aros.

Rhoddir nifer helaeth o wahanol driniaethau ar yr Unedau, yn cynnwys cemotherapi arbenigol newydd ar gyfer canserau'r gwaed, megis myeloma, a thriniaethau imiwnotherapi blaengar harneisia drefn imiwn cleifion i frwydro yn erbyn y canser yn fewnol.

Fe alluoga'r Uned Symudol newydd claf canser i dderbyn ar yr un pryd driniaeth, modd o ddelio ag anawsterau emosiynol, a chyngor ynglŷn ag ymarfer a deiet. Ffordd unigryw, a'r cyntaf yn y byd, o gydlyn triniaeth a gofal: fe'i datblygwyd a'i gweithredu yma yng Nghymru.

Mae Apêl Nes at Adref Tenovus Gofal Canser yn ariannu adeiladu Uned Symudol 3. Dros y deuddeg mlynedd nesaf bydd raid i'r elusen gyfarfod cost flynyddol o £120,000. I wybod mwy am yr Uned a sut y medrwch gefnogi'r Apêl, ewch at <https://tenovuscancercare.org.uk/get-involved/closer-to-home-appeal/>

Byw gyda chanser yn Sir Gaerfyrddin? - Gallwn roi help llaw i chi.

Byddwn yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch i gadw gafael ar bwy ydych a'r hyn sydd yn bwysig i chi. Efallai fod gennych ganser, ond chi yw chi o hyd. Mae Macmillan yma i'ch helpu i fyw eich bywyd beth bynnag ddaw.

Gwydom pa mor anodd yw ymdopi ag effeithiau corfforol, ymarferol ac emosiynol canser. Gall eich gadael yn teimlo'n ynysig ac weithiau'n methu gwneud tasgau hanfodol. Gall ymdopi fod yn arbennig o anodd os nad oes gennych ffrindiau neu deulu'n agos neu os ydych yn poeni eich bod yn gofyn am ormod o gymorth gan yr un bobl drosodd a throsodd.

Mae tîm Macmillan yma i helpu. Rydym yn cynnig gwasanaethau cymorth lleol, am ddim gan ein gwirfoddolwyr *cymwys* all roi help llaw i chi.

Mae **Cyfeillion Cymorth Sir Gaerfyrddin Macmillan** yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr st'n rhoi cymorth ymarferol ac emosiol ar draws Sir Gaerfryddin I unrhyw un sydd wedi ei effeithio gan ganser, yn cynnwys gotalwyr ac aelodau o'r teulu. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos (9am - 8pm), a gall gwirfoddolwyr wneud gwahaniaeth sylwedol trwy roi cymorth wedi ei deilwra i anghenion unigol, am ychydig oriau'r wythnos dros gyfnod amswer ctyun.

Gallai'r cymorth gynnwys:

- cymorth gyda gwaith tŷ ysgafn neu arddio
- cymorth gyda'r siopa
- cymorth dros u ffon
- llifft i apwyntiadau untro yn y gymuned
- paratoi pryd o fwyd ysgafn
- cael sgwrs a phaned o de
- cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol

Gallwch ofyn i'ch Nrys Arbenigol Canser, eich meddyg teulu neu weithiwr Iechyd/Gofal Cymdeithasol proffesiynol gysylltu a ni ar eich rhan heddiw.

Am fwy o wybodaeth yn flynn a'r ffordd y gall **Bydis Cymorth Sir Gaerfryddin** eich helpu chi, ffoniwch 01656 867960 neu anfonwch ebost southwalesbuddies@macmillan.org.uk

Helpwch hi i gefnogi mwy o bobl sydd wedi eu heffeithio gan ganser. Er mwyn darparu mwy o'n gwasanaethau, i ariannu mwy o'n gweithwyr proffesiynol, mae angen pobl fel chi i ymuno â'n tîm.

Ffoniwch ni am ddim ar 0808 808 00 00 neu ewch i www.macmillan.org.uk

Mae bywyd gyda chanser yn dal yn fywyd – fe wnawn ni eich helpu i fyw y bywyd hwnnw.

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Does dim un cyfarfod o'r Cyngor yn mynd heibio heb fod son am faterion priffyrrd a gorchymyn I'r Clerc I adrodd I'r Sir am gyflwr truenus ein heolydd, ac eto, yn fwy aml na dim fydd y trwsio yn cael ei esgeuluso a thrafodir y mater unwaith eto! A phob parch I adran Priffyrrd y Sir, rhaid iddynt weithredu o dan amgylchiadau anodd; cyllyd cyfyng a gweithlu wedi ei wasgu a chyfrifoldeb I gynnal dros 2,000 fillitir o heolydd ar draws hyd a lled Sir Gâr. Oes mae yna fynydd o waith ganddynt I wneud ond serch hynny, rhaid iddynt weithio I is-adranau arall er mwyn ennill arian ychwanegol fel bod arian digonol yn waddol I dalu eu cyflogau; yn dwyn oddi wrth Pedr er mwyn talu Paul, os dywed y Sais!

Bellach mae'r Cyngorwyr nôl ar ôl toriad yr Haf (nid oes yna gyfarfod ym Mis Awst!) ac eitem ar agenda cyfarfod Medi oedd cyfethol Cynghorydd newydd oherwydd I Mike Poston ymddiswyddo. Rhaid dilyn trefn bendant os dewis aelod newydd I'r Cyngor drwy ddefnyddio'r dull yma a dilynwyd a chydymffurfwyd a'r drefn felly yn ystod cyfarfod cyntaf yr hydref, cytunwyd I wahodd unigolyn o'r gymuned oedd ag awydd I wasanaethu I fod y Cynghorydd nesa; a dewisiwyd.....rhaid aros tan y cyhoeddiad nesa!

Phil Jones yw'r clerc a gellir cysylltu ag e' ar 01267 253512 neu clerc@llanpumsaint.org.uk.

Llyfr ar y ffordd?

Mae'n fwriad gennyf geisio rhoi llyfr at i gilydd, gobeithio cyn diwedd y flwyddyn. Gyda chanmlwyddiant y Rhyfel Gyntaf yn cael ei ddwyn i gof, mae'n amserol i gyhoeddi ffrwyth fy ymchwil i nifer o fechgyn lleol gollodd eu bywydau, yn y ddwy Ryfel Byd. Rhai ohonynt yn angof hyd yn hyn.

Mewn rhan arall bwriadaf gynnwys arolwg wnes o ardal Nebo yn y 19eg ganrif.

Yn y drydedd ran bydd lle i gynnwys eitemau a gyhoeddwyd yn rhifynnau Llais y Llan dros y bum mlynedd olaf yma. Mae gennyf rai deisiadau, ond byddwn yn falch o awgrymiadau gan ddarllenwyr Llais y Llan. Felly cysylltwch yn weddol gloi os gennych ddewis - arwynmssdd1@btinternet.com <<mailto:arwynmssdd1@btinternet.com>>. Neu 01267 235324 neu 07972477324.

Bydd unrhyw elw ar ôl cyfarfod a chostau cyhoeddi yn mynd at elusennau Cancr. *Arwyn 2017*

Heddlu

Ar ôl yr haf bendigedig, mae'r hydref wedi cyrraedd ac mae meddyliau pawb yn troi at wres canolog. Rydyn ni'n eich atgoffa i fod yn ymwybodol o'ch lefelau olew. Yn ddelfrydol, dylech eu gwirio'n wythnosol. Os yw'ch tanc mewn man unig, ystyriwch osod camera teledu cylch cyfyng neu oleuadau sy'n synhwyro symudiadau sy'n recordio neu'n goleuo ardal y tanc. Os yn bosibl, cadwch y tanc dan glo mewn caets. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â mi yng ngorsaf heddlu Caerfyrddin.

Wrth iddi dywyllu'n gynt gyda'r nos, hoffwn ailadrodd neges y llynedd i holl gerddwyr cŵn y pentref. Cofiwch wisgo dillad llachar pan fyddwch allan wedi iddi dywyllu neu ddechrau tywyllu. Mae profion yn dangos bod rhywun sy'n gwisgo dillad llachar yn cael ei weld sawl eiliad yn gynt na rhywun sydd ddim yn gwisgo dillad o'r fath.

Rydw i ar gael ar 101 neu drwy e-bost ar martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk os oes gennych unrhyw bryderon.

Martin Dickenson 8046, Swyddog Cymorth Cymunedol, Heddlu Dyfed Powys,
Carmarthen Police Station, 101 Ex 25344 / 25343

martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk

Gwasanaeth Swyddfa Bost - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

Clwb Gwili 60+

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Val Giles, Ysgrifenyddes y Clwb ar 01267 281194.

Gofal Traed

Dyma ddydiadau y clinig nesaf o 11.00y.b. hyd 4.00y.p, Dydd Mercher

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis)

Village Voice

October 2017

Copy Date for next Edition 24th November 2017

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from 4 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Friday 11.30 – 12.30 Mobile Library outside Memorila Hall, details 224830

October 13 Friday 7.00 Race Night Bronwydd Hall

October 14 Saturday Elvis Tribute Evening Memorial Hall Tickets All Sold

October 17 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

October 20 Friday Sponsored Bike Ride Cylch Meithryn Bronwydd

October 20 Friday 7.30 Fashion Show Cylch Meithryn Bronwydd Memorial Hall

October 22 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

October 25 Wednesday 7.30 Defibrillator Training Memorial Hall - Free

October 29 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

November 4 Saturday 6.30 Firework Night Bronwydd Cricket Club

November 4 Saturday Llanpumsaint Choir Annual Concert Tabernacle Chapel Carmarthen

November 7 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

November 8 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

November 15 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall

November 21 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

November 24 Friday Llanpumsaint Choir Concert Talog Hall

November 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

November 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

December 2 Saturday 11 – 2 Christmas Fair Memorial Hall

December 13 Wednesday 6.00 Christmas Supper Club Railway Inn – 253643 to book

December 24 Sunday Santa Parade

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524

Llanpumsaint and District Choir

The choir will be holding their Annual Concert at the Tabernacle Chapel in Carmarthen on Saturday November 4th 2017 at 7.30 p.m. This year because of other commitments will be performing a miscellaneous programme. Details of the concert is appended below.

Llanpumsaint and District Choir. Conductor Gwyn Nicholas Organist Lynne James. Assisting the choir will be Jessica Robinson, Carys Bowen, Huw Ynwr and Daniel O'Callaghan.

Tickets are £10.00 each and available from any choir member. Your support will be greatly appreciated. Also on November 24 2017 the choir will be performing in Talog Hall with the proceeds going towards the upkeep of the Hall. Also it is the intention of the Choir to hold a "Come and sing Carols evening". There will be posters around the area in the near future confirming where and when. The proceeds of the evening will go towards M.S which is the Choir's chosen charity for this year.

Head to Toes Footcare

The next clinic is on Wednesday from 11.00am to 4.00pm –

New clients should contact Gary Robinson any weekday evening between 6 – 8pm on 07789344488, as should any existing client wishing to cancel (at least 24hrs notice, please)

LLANPUMSAINT MEMORIAL HALL RECYCLING CENTRE

The Hall Trustees have a Partnership Agreement with Carmarthenshire County Council in respect of the Recycling Bins for paper, glass and cans to the side of the Memorial Hall.

Under the terms of the Agreement, I am required as Hall Secretary to send in a fortnightly report on:-

(I) The condition of the containers

(I). Any litter on site

(iii) Any vandalism

(iv) Any fly tipping on site.

It would be of great assistance to me if anyone experiencing problems at the site would report them to me immediately so that I can pass the matter on to the County Council to deal with.

It is in the interest of all in our community to ensure that the recycling site is fit for purpose.

Derick Lock - Hall Secretary - (01267) 253524.

LLANPUMSAINT & NEBO BOWLING CLUB

The Club held its AGM in the Memorial Hall on the 31st. August when the following Officers were elected:

Chair: Alan Dentry

Secretary: Jill Edwards

Treasurer: Gethin Edwards

Auditor: Alan Dentry

Team Captain: Gethin Edwards

Vice Captain: Rhys Williams

Match Day Refreshments: Jill Edwards

Club Child Protection Officers: Alan Dentry and Derick Lock

The Club welcomed a new Junior Member, Robert Day, to our ranks.

The Chair thanked the retiring Secretary, Derick Lock, for all his hard work over the last 13 seasons.

The 2017/18 season has now commenced, starting with an away defeat at Trimsaran, but with the next three matches all being at home we hope we can bring some better news in the next edition.

New players are always welcome from the age of 11 to 99. No experience is necessary as we have qualified coaches on hand to give help and encouragement.

For further information, please 'phone our Chair, Alan Dentry, on (01267) 253549 or our Secretary, Jill Edwards on (01267) 253474.

100 CLUB DRAWS FOR AUGUST AND SEPTEMBER

August	£20 - No. 77 - Idris and Marged Davies
	£10 - No. 9 - Keith Tozer
	£5. - No.38 - Morwen Rees
	£5 - No. 4 - Alan Dentry
September	£20 - No. 51 - Grant Davies
	£10 - No. 67 - Roz Evans
	£ 5. - No. 5 - Marjorie Dentry
	£ 5. - No.83 - Olwen Jones

Derick Lock, Treasurer, 253524

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

The Association held it's Annual Macmillan's Coffee Morning on Saturday, 23rd. September in the Memorial Hall when despite the horrible weather a very good crowd turned out to support this worthy cause. The sum of £332.06 was raised which will be sent on to Macmillans.

Many thanks to all who made cakes of all sorts and to those who donated to the fund raising games and the Name the Teddy game.

We hope Bob Jameson took Ben to bed with him that night - the bear of course!!!

The above event was closely followed by our Annual Charity Meal at The Railway on the 26th. September which 31 people attended.

Many thanks yet again to Jayne, Nick and their Staff for a truly wonderful meal. We hope we weren't too noisy!!! The evening raised the magnificent sum of £244.00 for our nominated Charity for 2017, Eiriol Mental Health Advocacy, a local Charity based in Carmarthen supporting those with mental health problems at meetings, making telephone calls and writing letters.

Ysgol Llanpumsaint PTA –

Events: Dec 2nd - Christmas Fair @ Llanpumsaint Hall – 11-2

The Annual Christmas Fair is on Saturday 2nd December. Doors open at 11.00 in the Village Hall. There will be a mixture of stalls from the public and the school as well as refreshments available. We hope that you all come again to the Christmas Fair and have an enjoyable time.

SPECIAL GUEST: This year Father Christmas himself is going to make a special appearance at the fair and children will be able to have a photo with him and a present. If you are interested in having a stall please contact Emma Brown 07773 034461 or brown6bz@btinternet.com



Easy Fundraising

If you are an Internet shopper, you could help raise funds for the PTA. All you have to do is register at, www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA or contact Emma Brown for the link.

£4£ Match Funding

